Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 29.09.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## CAIS: Angen llety

Mae pandemig Covid wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl yng Ngwynedd sy'n wynebu digartrefedd. Mae Cyngor Gwynedd yn gofyn am help i ddarparu llety dros dro i bobl sy'n wynebu digartrefedd. Bydd costau llety yn cael eu talu'n uniongyrchol gan Gyngor Gwynedd, a bydd y Cyngor yn darparu cefnogaeth i'r unigolion sy'n cael eu lletya. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch drwy:

- Ffôn: 01286 682785
- E-bost: MA2312@gwynedd.llyw.cymru.

# YMGYNGHORIAD: Sefydlu cynllun cofrestru neu drwyddedu statudol ar gyfer gweithredwyr llety gwyliau yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil ymhlith rhanddeiliaid i archwilio sefydlu cynllun cofrestru neu drwyddedu statudol ar gyfer gweithredwyr llety gwyliau yng Nghymru. I gael mwy o wybodaeth ar sut i gymryd rhan, ewch i:

https://bit.ly/NewCroesoCymru21Medi2021

# TRETH: Busnesau i gael mwy o amser i baratoi ar gyfer newidiadau treth digidol

Mae Cyllid a Thollau EM wedi cyhoeddi y bydd gan fusnesau flwyddyn ychwanegol i baratoi ar gyfer digideiddio Treth Incwm, ac y bydd Gwneud Treth yn Ddigidol (MTD) ar gyfer Hunanasesiad Treth Incwm (ITSA) yn cael ei chyflwyno flwyddyn yn hwyrach na'r disgwyl, yn y flwyddyn dreth sy'n dechrau yn Ebrill 2024. Am ragor o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3ueyJ0D

# DEDDFWRIAETH: Dal tipiau gweithwyr yn ôl i'w wneud yn anghyfreithlon

Bydd Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gyflogwyr ddal tipiau gweithwyr yn ôl. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3ujNWO2

# DYSGU: Ehangu Gorwelion gydag Ecwiti BYW

Bydd cynhadledd hanner diwrnod am ddim ar fuddsoddi ecwiti yn cael ei chynnal ar 4 Tachwedd 2021. Os ydych chi'n berchennog busnes sy'n edrych i dyfu, busnes newydd sy'n chwilio am

fuddsoddiad, neu os ydych chi'n bwriadu prynu neu werthu busnes, bydd y gynhadledd yn eich helpu i gyflwyno, cynllunio a dod o hyd i'r buddsoddiad cywir sy'n addas ar gyfer eich busnes. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://www.ecwiti.cymru/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru